



## Cofnodion/Minutes

### Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Dyddiad/Date: 13/02/2023

am 7:00 yh/ at 7:00pm

Gynhaliwyd / Held.... Yn y Ganolfan Abergynolwyn

Presennol

Y Cadeirydd Robert Jones a'r Cyngorwyr Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman, Elwyn Evans. Cydymdeimlwyd ac Elwyn ar golli cyfnither ym Mhenarth ,Caerdydd.

1. Ymddiheuriadau Steve Lewis. Yn hunan ynysu cyn cael llawdriniaeth yr wythnos nesaf.
2. Datgan diddordeb/ Declaration of interest: Neb
3. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Cafwyd y cofnodion yn gywir/ minutes were received, E Th yn cynnig Miriam Webb yn eilio a phawb yn cytuno
4. Cae Chwarae. Pob dim yn iawn
5. Mynwentydd. Pob dim yn iawn onibai am y twrch yn gwneud llanast.
6. Llwybrau Eisiau cyswllt a Sam Hollingsworth, pasiwyd i Beth Lawton geisio cael cyswllt.
7. Toiledau dal ynghau. Emrys yn adrodd ei fod wedi talu yr arian ac wedi anfon llythyr i gwyno am gyflwr y toiledau.
8. Adroddiad bioamrywiaeth. Os y daw cysylltiad pellach, pasiwyd i ymateb pan ddaw'r clerc newydd i'r swydd.
9. Adroddiad y cadeirydd Dirywiad yng nghyflwr y ffyrdd yng Nghwm Llan. Cytunwyd i gysylltu a Galw Gwynedd i ddangos cofnod o'r cyswllt.  
Mae wedi dod i sylw y Cadeirydd fod y mast symudol sydd wedi ei godi yn Ty'n y Bryn ddim yn cael ei godi i'r uchder mae wedi ei gynllunio. (Mae 6 mtr yn fyr) Pwyllgor cynllunio yn ol y son ddim iddo fod ddim uwch. Felly mae yn debyg mae dim ond rhai safleoedd fydd yn elwa, gan nad yw yng ngolwg y rhai eraill. Cafwyd cyngor i gysylltu a Mabon ap Gwynfor a Lis Saville Roberts i geisio cael dylanwad, gan eu bod yn gweithio ar gael y manau oddiarffordd i fynnu i'r gofynion cyswllt sydd yn y manau eraill.
9. Miriam wedi rhannu sawl ebost. Trefnwyr y ras Chwid yn holi am ddefnydd o'r maes chwarae fel yr arfer ar Sul, 30ain o Ebrill ac yn cytuno fod yr yswiriant arferol yn ei le. Cytunwyd i gefnogi fel arfer. Gwynedd Roberts yn codi mater fod banner i geisio hyrwyddo cadw Ambiwylans Awyr yng Ngaernarfon wedi ei chodi ar ffens y Cae Chwarae. Emrys T yn datgan ei fod wedi rhoi caniatad ar ôl anfon ebost i ofyn am fewnbwn.

10. Anfoneb o £240 wedi dod i law am yr archwiliad mewnol gan Cyngor Gwynedd.  
Cais am arian o Theatr Bara Caws. Cytunwyd i beidio cyfrannu.

Ambiwlans Awyr Plant :- ddim wedi cyfrannu o'r blaen.

Elwyn yn adrodd ei fod yn edrych i archebu 'filing cabinet', pawb o'r farn fod angen holi yn lleol i weld beth sydd ar gael o fewn yr ardal gyfagos cyn archebu o Viking ond dim ond ar ol cal caniatad Pwyllgor y Ganolfan iw leoli.

11. Beth Lawton: Penderfyniad i ymgynghori ar y ffordd wrth ochor Llyn Talylyn gan C. Gwynedd. Datgan fod yna drefniadau i ddatlu penblwydd Ysgol Craig y Deryn yn 10 oed ym mis Medi. Mae am fynychu cyfarfod gyda y Bwrdd Iechyd yr Wythnos nesaf. Dim posib denu Doctoriaid i weithio yn Nhywyn!! Dr Hyde wedi gadael, Locums yn unig ar hyn o bryd. Dr Tom dal yn neud rhywfaint o waith GP..

12. Ciosg.Minffordd a Groesffordd yn gweithio, Tyn y Cornel ddim.

13. Trafodwd swydd y clerc.Wedi cael atebiad addawol i'r swydd ,ond ddim yn gallu cychwyn a'r swydd tan ddiwedd yr Haf. Parhau gyda trafodaeth .

14. Un Llais: maent wedi deffro i'r ffaith fod yna wagle dirfawr yn swyddi Clercod ac maent yn son am sefydlu is bwyllgor i ddelio ar mater. Elwyn yn adrodd fod aelodaeth o gyfarfodydd Zoom wedi dirywio yn fawr.

Mae teimlad fod Un Llais yn canolbwyntio ar waith y Senedd; Grantiau Cyllid er engraifft a ddim gymaint ar gydweithio a chynghorau sydd yn aelodau o'r mudiad. Codwyd pwynt fod yna brinder cynrychiolwyr o bob Cyngor!! Pwynt arall a godwyd, fod cwynion wedi dod i law am amrywiaeth mewn costau etholiadau rhwng gwahanol gynghorau. Nodwyd fod ychydig o gynghorau mawr wedi ymaelodi:- Bae Colwyn yn engraifft.

Un Llais ddim yn siwr os bydd les y safle Rhydaman yn cael ei adnewyddu. Diolch Elwyn.

15. Safle Treftadaeth. Dim gohebiaeth wedi dod i law. Wedi anfon y ffurflenni yn ôl a Gwynedd Roberts wedi cael gwybod fod yr arwydd mawr yn cael ei osod ddiwedd Mawrth. Diolch iddo.

16. Dim i'w adrodd o Ardal Ni 2035.

17. Cwyn yn erbyn EVRI/Hermes nad yw parseli yn cyrraedd pen y siwrnau. Roedd ardalodd eraill yn holi am fwy o dystiolaeth i ddanfon i'r cwmni. Pethau yn weddol o fewn ein hardal ni a deallwn fod pethau yn gwella mewn safleoedd eraill.

Unrhyw fater arall; adroddiad fod Gwaith ar Heol y Dwr wedi eu wneud. Car yn dal wrth y Capel- gofyn am dynnu llun ohono a'i ddanfon i Cyngor Gwynedd.

Cartref Mari Jones.

1. Pob dim yn iawn. Eisiau cyswllt a Dolgellau ynghyd ar arwydd.

Cyfarfod i ben am 8.20yh

Present

Chairman Robert Jones and Councilors Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman, Elwyn Evans. Sympathy with Elwyn on the loss of a cousin in Penarth, Cardiff.

1. Steve Lewis' Apologies. In self isolation before having surgery next week.
2. Declaration of interest None
3. Everyone was welcomed by the Chairman. The minutes were received as being correct, E Th proposed Miriam Webb seconded and all agreed
4. Playground. Everything is fine
5. Cemeteries. Everything was fine if it wasn't for the mole making a mess.
6. Footpaths No contact with Sam Hollingsworth, passed to Beth Lawton to try to get contact.
7. Toilets presently closed. Emrys reports that he has paid the money and sent a letter to complain about the condition of the toilets.
8. Biodiversity report. If there is further correspondence, it was passed to respond when the new clerk comes to the post.

9. The chairman's report . Deterioration in the condition of the roads in Cwm Llan. It was agreed to contact Galw Gwynedd to show a record of the contact.

It has come to the Chairman's attention that the mobile mast that has been erected at Ty'n y Bryn is not being raised to the height that had been planned. (6 mtr is short) According to the planning committee it is not possible for it to be any higher. So probably only some sites will benefit,. Advice was received to contact Mabon ap Gwynfor and Lis Saville Roberts to try to see if they have influence, as they are working on getting full connectivity for all rural areas.

9. Miriam has shared several emails. The organizers of the Duck race asked about use of the playground as usual on Sunday, 30th of April and advised that the usual insurance is in place. Agreed to support as usual. Gwynedd Roberts raised the issue that a banner to try to promote keeping an Air Ambulance in Caernarfon has been erected on the fence of the Playground. Emrys T advised that he had given permission after receiving an e mail asking for support.

10. An invoice of £240 has been received for the internal audit from Gwynedd Council. Passed to pay. Request for money received from Theatr Bara Caws. It was agreed not to contribute.

Children's Air Ambulance :- have not contributed before.

Elwyn reports that he is looking to order a 'filing cabinet everyone agreed that it might be possible to source locally or order from Viking but only after obtaining permission from the Ganolfan Committee to locate it.

11. Beth Lawton: Advised on the Decision to consult on the road next to Llyn Tallylyn by C. Gwynedd. Informed the Community Council that there are arrangements in hand to celebrate Ysgol Craig y Deryn's 10th birthday in September.

She will attend a meeting with the Health Board next week.

Impossible to attract Doctors to work in Tywyn!! Dr. Hyde has left, Locums only at present. Dr. Tom still doing some GP work.

12. Kiosk. Minffordd and Groesffordd working, Tyn y Cornel not.

13. Discussion of the clerk's job. Had a promising response to the job advert, but not able to start the job until the end of the Summer. Decided to continue discussions with the candidate.

14. One Voice: they have woken up to the fact that there is a huge vacancy in the posts of Clerks and they are talking about establishing a sub-committee to deal with the issue. Elwyn reports that membership of Zoom meetings has declined greatly.

There is a feeling that Un Llais focuses on the work of the Senedd; Funding Grants for example and not so

much on collaboration with the councils that are members of the organisation. A point was raised that there is a shortage of representatives from each Council!! Another point that was raised was that complaints had been received about a variation in election costs between different councils. It was noted that a few large councils had joined:- Colwyn Bay for example.

Un Llais not sure if the lease of the Ammanford site will be renewed. Thank you Elwyn.

15. Heritage Site. No correspondence received. Having sent the forms back, Gwynedd Roberts has been informed that the large sign is being installed at the end of March. Thanks to him.

16. Nothing to report from Ardal Ni 2035.

17. Complaint against EVRI/Hermes that parcels do not arrive at the end of the journey. It appears the company were already aware of the situation and that Things are fair within our area and we understand that things are improving in other sites.

Any other matter; report that Work on Water Road has been done. Car still at the Chapel - ask to take a picture of it and send it to Gwynedd Council.

Mary Jones' home.

1. All is well. Chair still to contact Dolgellau regarding the sign.

Cyfarfod nesaf:

13/3/2023 @7:00yh

Next meeting:

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com